# CYLCHLYTHYR 31 – GWANWYN 2018

Mae'n  amser dathlu 10 mlwyddiant prynu Dolgoch a Thy'n Cornel – nodwch y lluniau (yn y fesiwn saesneg), yn enwedig teisen ardderchog oddiwrth Nicky.  Yno roedd nifer o aelodau ac Ymddiriedolwyr yn pori dros luniau niferus o'r hosteli cyn, yn ystod ac ar ol y gwellliannau.

Dolgoch: Mae'n ffynnu. 2017 – dros 1700 noswaith, ac arwyddion am fwy eleni.  Amcangyfrif o 10,000 dros y degawd.  Diolch yn arbennig I'r arloeswyr cyntaf ee Marilyn Barrack a Bill Hine, a Colin Hughes, y Rheolwr presennol.

Ty'n Cornel: Eto, mae'n ffynnu, yn enwedig trwy'r ceisiau am ystafelloedd unigol neu'r hostel cyfan. Mae profion dwr diweddar yn cadarnhau safon  y dwr ers gosod  y ffiltr UV yn 2009 ac mae clwyd newydd ar y trac yn cadw defaid allan o'r ardd. Mae'r stof newydd yn llwyddiant, a'r bwrdd newydd hefyd yn gwella safon a chysur y lolfa. (Richard Hollins/Rheolwr)

**Menter Mynyddoedd Cambrian**

Mae'n  hardal ni yn arbennig iawn a bu bron iddi ddod yn Barc Gwledig yn 1972. Ers hynny bu ymdrechion lu I'w chadw a'I chynnal ac erbyn hyn mae cais I'w gwarchod fel Parc Naturel.  Mae 51 ohonynt yn Ffrainc a 22 mewn gwledydd eraill.  Y syniad yw bod yr ardal yn cael ei hystyried gyfwerth a phopeth arall fel bod cymunedau, tirfeddianwyr a chyfundrefnau eraill yn dod at ei gilydd I'w ddatblygu er budd pawb. Y nod yw denu ymwelwyr a gwella marchnadoedd gwledig a gwelir cam cynnar yn natblygiad diwydiant Gwlan a Chig Oen Cambria. Bu cyfarfodydd ym mis Chwefror I godi ymwybyddiaeth: https://www.facebook.com/VisitCambrianMountains.  Y cydlynwyr yw Dafydd Wyn Morgan ac Esther Wakeling.  Mwy o fanylion yn y Cyfarfod Blynyddol ar  Gorffennaf 7.

**Llyfrau Cof**

Diolch I Pearl Chalk am y syniad hwn, sef Llyfr Cof yn y ddau hostel am gefnogaeth gwerthfawr ac amrywiol rhai o'n haelodau ymadawedig.

**Newyddion am  Yr Hen  Gelynnen a Bele'r Coed gan Bill Hine – Mawrth 2018**

Mae'r berth celyn o gylch Ty'n Cornel wedi tyfu o hadau hen goeden naturiol benywaidd yng Nyffryn Doethie.  Hi oedd yr unig un ac yn anffodus, erbyn hyn mae wedi syrthio dros yr afon.  Rwy'n gobeithio plannu rhai o'I hadau ar hyd y glannau er gwaethaf y defaid, y tirfeddianwr a datblygiad araf iawn yr hadau.

Yn ystod y tair mlynedd diwethaf ac oherwydd eu prinder, rhyddhawyd sawl Bele'r Coed I gefngwlad Cymru gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt  Vincent.  Disgwylir I'r prosiect barhau, gyda'r anifeiliaid yn gwisgo coleri radio a chamerau mewn mannau cudd er mwyn eu hastudio.  Am fwy, ewch at:

http://www.pine-marten-recovery-project.org.uk/news/final-pine-martens-released-in-wales

Mae'r daflen hysbys/aelodaeth wedi ei ddiweddaru ac mae copiau ar gael yn y ddau hostel ac oddiwrth Marilyn Barrack.

**Llyfr Ymwelwyr**

Ar ddechrau'r cyfnod newydd 10 mlynedd yn ol, crewyd Llyfr Ymwelwyr newydd I Dolgoch a Thy'n Cornel – rhai safonol o bapur da wedi eu rhwymo mewn cloriau lledr. Erbyn hyn, mae un Dolgoch yn llawn a, diolch I Arthur Green a'u creodd, mae un newydd ar y ffordd. Maent yn llawn o atgofion diddorol hyfryd ac yn bleser I'w darllen. Diolch yn fawr, Arthur.

**Talebau Gwyrdd**

Newydd! Os cyrhaeddwch yr hostel ar feic neu droed, byddwch yn ennill Taleb Werdd a'r hawl I gael noson ar achlysur arall o fewn 12 mis am hanner pris – naill ai yn Dolgoch neu Ty'n Cornel. Gobeithiwn annog pobl I feddwl am leihau ei hol-troed carbon. Cysylltwch yn uniongyrchol a:

Richard/Janet Hollins: tyncornel.bookings@btinternet.com

Gill Keen: gill.keen@dolgoch.org

Mae'r daith cerdded o Orsaf Cynghordy / Llanwrtyd yn hyfryd, neu ar feic o Lanymddyfri /Aberystwyth. Hefyd mae bws o Dregaron neu Llanddewi Brefi – gweler www.traveline.cymru

**Dyddiadau i'w Cofio**

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn Mai 12 | Cyfarfod Agored | Ty'n Cornel |
| Sadwrn Gorffennaf 7 | Cyfarfod Blynyddol | Y Talbot, Tregaron |
| Sul, Gorffennaf 8 | Cyfarfod Agored | Dolgoch |

Trefnu aros: am 6 a 7/7 – cysylltwch a barglam@yahoo.co.uk - NID AR LEIN

Am ddyddiadau pellach, gweler y wefan.

Croeso I bawb I'r cyfarfodydd. Mae Cofnodion y Cyfarfodydd Agored ar gael I bawb trwy:

Janet.hollins@btinternet.com

OND yn bwysicach oll, dewch I aros!: http://www.elenydd-hostels.co.uk/en/booking